



TGAU

3010NA0-1

DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2024 – BORE

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN UWCH

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

(Trowch y dudalen)

3

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
Mae'r ddwy gerdd yn sôn am rwystro a chyfyngu rhyddid.**

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- **cynnwys a neges / themâu'r cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi.**

Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

OFN

**‘TERRORISM CAN HIT US ANYWHERE
FROM ANY PLACE.’ – GORDON BROWN**

**Pan fo holl rym tywyllwch dros y byd,
a rhyddid wedi’i fygwth ar bob tu,
pan fo cysgodion ar y ffyrdd i gyd
a phob un cornel stryd yn gysgod du,
pan nad oes dim ond dychryn ar y sgrîn
a dim ond nos yr ochr draw i’r llen,
pan fo pob ffrind yn sinistr a blin
a’r rhai mewn grym yn gweld y byd ar ben,
diffoddwch y teledu am y tro,
agorwch lenni’r lolfa led y pen,
cofleidiwch yr anwybod, ewch ag o
tu allan ar y stryd fel cylllell wen
i dorri drwy hualau’r ofnau sydd
yn cadw pawb yn saff rhag bod yn rhydd.**

Hywel Griffiths

(Trowch y dudalen)

MYND AM DRO MEWN LOCKDOWN (ETO)

**Mae *min gan y mis bach heddiw,
ei fysedd oer yn gwthio'u ffordd drwy
'nghot**

**wrth i mi grynu, a chodi'r zip jyst bach yn
uwch.**

**Ond dwi *mas. Drwy'r drws ac am y llwybr,
ar fy nhro beunyddiol rownd y bloc
gan ei fod, medden nhw, yn llesol i'r enaid.**

**Dros y bont ac i'r dde, fel bob tro,
fy nhraed yn mynd heb feddwl, bron,
a dwi'n tynnu'n ffôn o 'mhoced i sgipio
cân.**

Difaru peidio gwisgo menig.

**Dwi'n cyrraedd *estyll y WETLANDS
ac yn edrych o 'nghwmpas yn iawn am y
tro cynta heddi.**

(Trowch y dudalen)

**Mae'r gwyllanod yma, wrth gwrs,
yn sgowntio am grwstyn yn y golau oer,
a'r iâr ddŵr yn chwarae mig rhwng
cynffonau'r *cyrs.**

**Sisial y brwyn bron yn tawelu ceir y
FLYOVER,
a sblash yn chwalu adlewyrchiad coch
boncyffion cwyros: dau *falard
sy'n credu y cawn nhw fwyd gan hon, wir.**

**Mae bywyd yma'n aros i ni, o hyd,
dim ond i ni fod â'r galon i ddod mas i
gwrdd ag e.**

Elen Ifan

(Trowch y dudalen)

GEIRFA

***min – teimlad oer**

***mas – allan**

***estyll – planciau/darnau o bren**

***cyrs/brwyn/cwyros – planhigion sy'n tyfu wrth ymyl dŵr**

***falard – malard, math o hwyaden, aderyn**

DIWEDD Y PAPUR